

Gloywi iaith: AMSER STORI

**Blwyddyn 2 Gwers 6
26ain Ionawr, 2017
Kara Lewis**



Nod ac Amcanion

- Nod y wers heddiw ydy:
 - *Datlblygu ac ymarfer iaith trafod stori*
- Amcanion:
 - *Trafod gwallau cyffredin y dasg ysgrifennu*
 - *Trafod termau gramadeg*
 - *Adolygu ac ymestyn gorchmynion*
 - *Cwestiynau a threigladau*




Torri'r Garw

Dewch o hyd i rywun...

Find someone...

sydd wedi byw dramor am gyfnod	sydd â sgil anarferol	sydd wedi tynnu hunlun gyda rhywun enwog
sy'n siarad mwy nag un iaith	sydd wedi neidio o awyren	sy'n gallu canu'r anthem genedlaethol
sy'n gwybod sut i ddweud enw lle hiraf cymru	sydd wedi canu ar y llwyfan	sydd â fideo o'i hun ar 'You Tube'

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd



Rhaglen Gymorth Genedlaethol
National Support Programme

Llythrennedd a Rhifedd
Literacy and Numeracy



FfLIRh Meithrin – Darllen

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae dysgwyr yn gallu:	Datganiadau cyfeillgar i ddysgwyr:
Canfod, dewis a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	M.DS1	dewis gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys llyfrau	Rwy'n gallu dewis rhywbeth i'w ddarllen, e.e. llyfr.
		M.DS3a	adnabod geiriau cyfarwydd, e.e. eu henwau eu hunain, a phrint yn yr amgylchedd, e.e. logos	Rwy'n gwybod sut mae fy enw'n edrych. Rwy'n adnabod rhai logos.
		M.DS7	dehongli ystyr drwy luniau mewn llyfrau, gan ychwanegu manylion wrth esbonio	Rwy'n gallu defnyddio lluniau i adrodd stori. Rwy'n gallu ychwanegu fy syniadau fy hun.
		M.DS8	adnabod lluniau ar sgrin a dehongli eu hystyr	Rwy'n gallu deall lluniau ar sgrin.
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	M.DD2	cofiu manylion stori neu destun drwy ateb cwestiynau penagored neu ddefnyddio lluniau i'w helpu	Rwy'n gallu ail-ddweud rhannau o stori drwy ddefnyddio cliwiau llun. Rwy'n gallu ail-ddweud rhannau o stori drwy ateb cwestiynau .
		M.DD6	dechrau gwneud cysylltiadau â'u profiadau eu hunain wrth wrando ar lyfrau/testunau neu wrth edrych arnynt	Rwy'n gallu dechrau gwneud cysylltiadau rhwng gwrando ar storïau a phethau amdanaf i.
	Darllen, ymateb a dadansoddi	M.DYD1	dangos diddordeb mewn llyfrau a mwynhau eu cynnwys	Rwy'n gallu dangos fy mod yn hoffi llyfrau.
		M.DYD2	dilyn llyfrau lluniau a thestunau a ddarllenir iddynt ac ymateb yn briodol.	Rwy'n gallu dilyn llyfrau stori a llun. Rwy'n gallu dilyn pethau sy'n cael eu darllen i mi a dangos fy mod yn deall.

Trafod gwallau cyffredin y dasg ysgrifennu



Treiglo BOD

BOD

1. Ar ôl **berf amhersonol**:
e.e. Dywedir **bod** y cyfarfod
wedi ei ohirio.
2. Ar ôl **berfenw**:
e.e. Yr wyf yn credu **bod** hyn
yn wir.
3. Ar ôl **Er**:
e.e. Er **bod** rhai yn gwrthod
....

FOD

1. Ar ôl **berf gryno**:
e.e. Credaf **fod** hyn yn wir.
2. Ar ôl **ansoddair**:
e.e. Y mae'n amlwg **fod** hyn
yn wir.
3. Ar ôl **enw**:
e.e. Nid oes sicrwydd **fod**

Mae mwy o help ar hyn yn *Y Golygiadur - Llawlyfr i Awduron a Golygyddion* gan Rhiannon Ifans. (Cymdeithas Llyfrau Ceredigion Cyf. 2006 - tud. 401 - 403)

Cysondeb

- Yr ydwyf
 - Rwyf
 - Rwy'n
 - Rydw i
 - Dw i
 - Dwi
-
- Dewiswch ffurf briodol ar gyfer y cywair a byddwch yn gyson.

Amhersonol

- Edrychwch eto ar y nodiadau!



Talfyrru 'yn'

- Nid yw'r arddodiad **yn** yn cywasgu

*Mae'r pili pala **yn** yr awyr.*

- Mae **yn** traethiadol yn troi'n '**n**

*Mae'r pili pala'**n** hedfan yn yr awyr.*



Berfau Cryno / Brawddegau Cwmpasog

Pan yn ysgrifennu, y mae'n fwy cynnil ac fwy effeithiol i ddefnyddio berfau cryno yn lle brawddegau cwmpasog:

Gwnes i ddysgu mewn ysgol wledig.

Dysgais mewn ysgol wledig.

Rhagenwau Dangosol

Mae'r ddarlith **yma**'n wych!

Mae'r llyfr **yma**'n ddefnyddiol.

Mae'r gwersi **yma**'n ddiddorol.

Mae'r ddarlith **hon** yn wych!

Mae'r llyfr **hwn** yn ddefnyddiol.

Mae'r gwersi **hyn** yn ddiddorol.

Mynegiant


Byddwch yn gryno.
Ysgrifennwch yn syml.

Darllenwch dros eich gwaith.
Darllenwch yn uchel i sicrhau eglurder.





Trafod termau gramadeg



Adferf	<i>Adverb</i>	Mae adferf yn ategi'r ferf, yr ansoddair neu adferf arall. Gyda berf, mae'n dangos ble, pryd sut neu pam mae'r weithred wedi digwydd.
Ansoddair	<i>Adjective</i>	Mae ansoddair yn air sy'n disgrifio.
Arddodiad	<i>Preposition</i>	Mae arddodiaid yn dweud wrthym ble, pryd neu sut mae rhywbeth wedi digwydd. Geiriau fel <i>ar, o dan, i, o.</i>



Berf	<i>Verb</i>	Gair sy'n cylfeuo gweithred yw berf, geiriau megis es, byddaf, mae sy'n dangos pwy a phryd mae'r weithred yn digwydd.
Berf gryno	<i>Consise verb</i>	Yn wahanol i'r frawddeg gwmpasog isod, defnyddir berf gyda therfyniad sy'n dynode amser a pherson. <i>Cerddais i.</i>
Berfenw	<i>Verb-noun</i>	Ffurff gysefin berf yw berfenw: Y ffurf wreiddiol a geir mewn geiriadur. Nid yw'r gair yn dweud pryd na phwy sy'n gwneud y weithred. E.e. <i>bod, mynd, dysgu</i>
Brawddeg gwmpasog / beriffrastig	<i>Periphrastic/ Inconsise sentence</i>	Defnyddir berfau <i>bod</i> neu <i>gwneud</i> er mwyn cynnal berfenw arall. Ffordd hir o ffurfio brawddeg. <i>Roeddwn i'n cerdded.</i>



Enw	<i>Noun</i>	Mae enw yn enwi person , lle, peth neu syniad.
Goddrych	<i>Subject</i>	<i>Ysgrifennodd John draethawd gwyh.</i> John yw'r goddrych, sef yr un sy'n gwneud y weithred (sef ysgrifennu).
Gwrthrych	<i>Object</i>	Ystyr gwrthrych ydy'r peth neu'r person y mae'r weithred yn cael ei gwneud iddo / iddi; y peth neu'r person sy'n "dioddef" y weithred e.e. <i>Ysgrifennodd John draethawd gwyh.</i>
Rhagenw	<i>Pronoun</i>	Defnyddir rhagenw yn lle enw, geiriau fel <i>fe / hi / nhw</i> .
Y Fannod	<i>The definite article</i>	Yn Saesneg "the".

A green chalkboard occupies the left side of the image. Two pieces of pink chalk are lying on the board. There are some white chalk markings, including a curved line and a straight line with a small hook at the end.

Adolygu ac ymestyn gorchmynion

Rheolaidd

Fel arfer, rydym yn defnyddio'r gorchmynnol yn yr ail unigol (ti) a'r ail lluosog (chi).

Mae'r **ail unigol** yn cael ei ffurfio mewn dwy ffordd.

bonyn y ferf ar ei ben ei hun, e.e.

rhed

edrych

eistedd

dal

ychwanegu **-a/-ha/-ia** at y bonyn, e.e.

rheda

cerdda

cofia

eistedda

mwynha



Mae'r **ail lluosog** yn cael ei ffurfio drwy ychwanegu **–wch at fonyn y ferf, e.e.**

rhedwch

cerddwch

edrychwch

ysgrifennwch

Wrth ysgrifennu Cymraeg ffurfiol, bydd **a** ym monyn y ferf yn newid i **e** o flaen **–wch**, e.e.

Glan**hau** > glanh**ew**ch

caniat**áu** > caniate**w**ch

bwy**ta** > bwyte**w**ch

Terfyniad y ferf	Berfenw	Bonyn	Gorchymyn
-io			
-io	Anghofio	Anghofi-	Anghofia/Anghofiwch
-io	Ffonio	Ffoni-	Ffonia/Ffoniwch
-io	Cofio	Cofi-	Cofia/Cofiwch
dim terfyniad			
	Gofyn	Gofynn-	Gofynna/Gofynnwch
	Eistedd	Eistedd-	Eistedda/Eisteddwch
	Edrych	Edrych-	Edrycha/Edrychwch
	Darllen	Darllen-	Darllena/Darllenwch
llafariaid			
-o	Gwisgo	Gwisg-	Gwisga/Gwisgwch
-u	Tynnu	Tynn-	Tynna/Tynnwch
-u	Sychu	Sych-	Sycha/Sychwch
-u	Talu	Tal-	Tala/Talwch
-i	Codi	Cod-	Coda/Codwch
-a	Bwyta	Bwyt-	Bwyta/Bwytwch
-ed/-eg			
-ed	Cerdded	Cerdd-	Cerdda/Cerddwch
-eg	Rhedeg	Rhed-	Rheda/Rhedwch
-ed	Yfed	Yf-	Yfa/Yfwch
-oi			
-oi	Rhoi	Rho-	Rho/Rhowch
-oi	Troi	Tro-	Tro/Trowch

Ffurfiau afreolaidd

Berfenw	2il unigol	2il lluosog
mynd	Dos/Cer	Ewch
dod	Tyrd/Dere	Dewch
cael	Cei	Cewch
gwneud	Gwna	Gwnewch
bod	Bydd	Byddwch

Ffurfiau negyddol

Rydym yn ffurfio'r negyddol drwy roi **Paid â/ag** (2il unigol) neu **Peidiwch â/ag** (2il lluosog) o flaen y berfenw.

Cofiwch

- **ag** o flaen llafariad, e.e.
 - Paid ag yfed.
 - Peidiwch ag anghofio.
 - Paid ag aros.
 - Peidiwch ag ymladd.
- **a** + treigladau llaes o flaen cytseiniaid, e.e.
 - Paid â **ph**enderfynu nawr.
 - Peidiwch â **ph**oeni.
 - Paid â **ch**ymysgu.
 - Peidiwch â **th**alu heddiw.



Cyfieithwch

- Use paper
- Read a book
- Write a letter
- Sing a song
- Cut cardboard
- Write a poem
- Count flowers

A decorative border on the left side of the slide, resembling a green chalkboard. It features two pieces of pink chalk, one standing upright and one lying down. There are also some white chalk markings, including a curved line and a straight line with a small hook at the end.

Cwestiynau a threigladau



Sut + berf		Sut taloch chi am y llyfrau?
Sut + enw	Treigladd meddal	Sut gyfrifiadur yw e?
Pryd + berf		Pryd cyrhaeddodd nhw?
Ble + berf		Ble gadawaist ti dy got?
Beth + berf	Treigladd meddal	Beth ddywedodd y rhiant?
Faint + berf	Treigladd meddal	Faint dalon nhw?
Pwy + berf	Treigladd meddal	Pwy fwytodd y cinio?
Pa + enw	Treigladd meddal	Pa lyfrau ysgrifennodd hi?
Pa + enw + berf	Treigladd meddal	Pa lyfrau ddarlleuast ti?
P'un + berf	Treigladd meddal	P'un brynoch chi?
Pam		Pam dest ti i'r ysgol?

Matiau Gramadeg

- [Matiau Gramadeg](#)







Sefyllfa Siarad: Amser Stori



Mewn grwpiau:

Un person i chwarae rhan yr athro / athrawes.

Darllenwch stori i'r plant

Gofynwch lawer o gwestiynau!

Cofiwch ddefnyddio gorchmynion!



Ymadroddion amser

- Amser maith yn ôl
- Ar doriad y wawr
- Ddoe
- Echddoe
- Trannoeth / Trennydd
- Ar y pryd
- Maes o law

Symud y Stori yn ei blaen...

Dyma rai ymadroddion fydd yn help i symud y stori yn ei blaen:

yn sydyn
yr eiliad nesaf
yna
wedyn
cyn hir
yn hwyrach

Mewn chwinciad ...
Ar unwaith ...
Heb oedi dim ...
Yn fuan wedyn ...
Yr wythnos ganlynol ...




Dyma rai ymadroddion fydd yn help i symud y stori yn ei blaen:

ar unwaith
cyn hir
cyn pen dim
heb oedi dim
mewn chwinciad
yr eiliad nesaf
yr wythnos ganlynol

O dipyn i beth ...
Yn y cyfamser ...
Ymhen hir a hwyr ...
O ganlyniad i hyn ...
Yn fuan wedyn ...
Yn hwyrach y noson honno ...
Ar hynny ...

Cysylltiadau thematig


Trafod straeon o gwmpas y byd, a dathliadau Cymreig a rhyngwladol sy'n deillio o straeon enwog.



Tasg



- Llunio taflen gymorth / cyflwyniad pwerbwynt yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion ar gyfer storïau.



A chalkboard with two pieces of pink chalk and a large white checkmark drawn on it. The chalkboard is dark green and has a white checkmark drawn on it. Two pieces of pink chalk are lying on the board, one upright and one lying down. The background is dark and textured.


-
- A green chalkboard with two pieces of pink chalk and white chalk markings. The markings include a large 'X' and a curved line.



Tasg



- Defnyddiwch *Serennu wrth Sgrifennu*, geiriadur neu adnoddau eraill i greu agoriad i stori. Lluniwch ddarn y gallwch ei defnyddio fel templed yn yr ysgol.



Y tro nesaf

Ysgrifennu Disgrifiadol

2/2/17

TL10

